

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Tywysoges Cymru –
Gwasanaethau Mamolaeth, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Dyddiad arolygu: 30 Medi – 2 Hydref
2019
Dyddiad cyhoeddi: 2 Ionawr 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	16
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	28
4.	Beth nesaf?	34
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	36
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	37
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	38
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	50

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o Ysbyty Tywysoges Cymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 30 Medi, 1 a 2 Hydref 2019. Mae'r arolygiad hwn yn rhan o adolygiad cenedlaethol AGIC o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru¹.

Ymwelwyd â'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 12 – ward gynenedigol (cyn esgor) gyda 12 o welyau a ward ôl-enedigol (ar ôl esgor) gyda 14 o welyau
- Uned a arweinir gan fydwragedd – gyda dwy ystafell esgor ac un pwll geni
- Ward esgor – (yn ystod y cyfnod esgor) gyda chwe ystafell esgor ac un pwll geni
- Ardal asesu brysbennu
- Dwy theatr llawdriniaethau.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri o arolygwyr AGIC, dau adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un obstetrydd ymgynghorol ac un fydwraig) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

¹ <https://agic.org.uk/adolygiad-cenedlaethol-o-wasanaethau-mamolaeth>

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom nodi nifer o bryderon uniongyrchol a meysydd i'w gwella. O ganlyniad i hynny, ni ellid rhoi sicrwydd i ni fod gofal cleifion yn cael ei ddarparu'n ddiogel ac yn effeithiol bob amser.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y menywod a'u teuluoedd yn gadarnhaol am eu gofal a'u triniaeth
- Gwelsom ryngweithio proffesiynol a charedig rhwng y staff a'r cleifion, a gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd urddasol
- Roedd trefniadau ar waith i roi cymorth profedigaeth a chymorth amenedigol i'r menywod a'u teuluoedd
- Arweinyddiaeth gref gan y bydwagedd a chymorth da yn cael ei gynnig i'r staff.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Archwilio cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig a chleifion sy'n oedolion yn rheolaidd
- Lliniaru risgiau ynghylch herwydio babanod
- Adolygu'r broses o ragnodi meddyginiaeth i ysgogi'r cyfnod esgor
- Storio meddyginiaethau
- Adolygu polisïau a gweithdrefnau
- Rhai meysydd cadw cofnodion cleifion
- Argaeledd gwybodaeth hybu iechyd ym mhob rhan o'r uned.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Ysbyty Tywysoges Cymru wedi'i lleoli ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae'n rhan o'r gwasanaethau a ddarperir gan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Cafodd y bwrdd iechyd ei sefydlu ar 1 Ebrill 2019 ac mae'n darparu gwasanaethau yn ardaloedd Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf.

Mae dalgylch y bwrdd iechyd ar gyfer gwasanaethau gofal iechyd yn cynnwys tua 450,000 o bobl. Darperir gwasanaethau gofal aciwt, canolraddol, sylfaenol, cymunedol a gwasanaethau iechyd meddwl. Caiff gwasanaethau eu darparu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys tri ysbyty: Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Tywysoges Cymru.

Cynigir gwasanaethau mamolaeth i bob menyw a'i theulu sy'n byw o fewn ffin ddaearyddol y bwrdd iechyd. Caiff menywod sy'n rhoi genedigaeth yn ardal y bwrdd iechyd ddewis o blith nifer o leoliadau geni. Mae'r rhain yn cynnwys geni yn y cartref, uned annibynnol a arweinir gan fydwragedd, gofal a arweinir gan fydwragedd mewn unedau bydwreigiaeth ac unedau obstetrig.

Ym mis Ebrill 2019, daeth gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd (wedi'u lleoli yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl) yn destun mesurau arbennig² o dan gyfarwyddyd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn yn dilyn adolygiad annibynnol³ o wasanaethau mamolaeth a gynhaliwyd gan Goleg Brenhinol y Bydwreidd a Choleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr.

²<https://llyw.cymru/gwasanaethau-mamolaeth-cwm-taf-morgannwg-mewn-mesurau-arbennig-wrth-i-adroddiad-nodi-methiannau>

³ <https://llyw.cymru/adolygiad-o-wasanaethau-mamolaeth-bwrdd-iechyd-prifysgol-cwm-taf>

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd y cleifion yn gadarnhaol am eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth ac roeddent yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais, cyfeillgar a chefnogol rhwng y staff a'r cleifion. Gwelsom fod gofal yn cael ei ddarparu mewn ffordd a oedd yn cynnal urddas cleifion.

Roedd angen gwella'r wybodaeth hybu iechyd a ddarperir er mwyn hysbysu cleifion a'u teuluoedd ynghylch aros yn ddiogel ac yn iach.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, teuluoedd a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar safon y gofal a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o naw holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â 13 o gleifion yn ystod yr arolygiad.

Roedd y cleifion a gwblhaodd holiaduron o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr uned famolaeth yn ardderchog (nodwyd sgoriau o naw allan o 10 ac uwch). Dywedodd y cleifion a'u teuluoedd y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael profiad da ym mhob rhan o'r uned. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Methu gwneud digon, yn mynd gam ymhellach i helpu. Os yw'r gloch yn canu, maent yn dod ar unwaith".

"Mae'r meddygon, y nyrsys a'r anesthetydd wedi bod yn wych. Maent wir wedi bod yn ardderchog. Maent yn dod yn ôl ac yn ymlaen yn ystod y nos".

"Mae bob amser yn lân ac yn daclus. Mae'r staff yn hyfryd ac yn gyfeillgar."

Fodd bynnag, dywedodd ychydig yn llai na hanner y cleifion a gwblhaodd holiadur nad oedd partner na rhywun agos atynt wedi gallu aros gyda nhw am gymaint o amser ag yr hoffent.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod bydwagedd wedi siarad â nhw am y newidiadau emosiynol y gallent eu profi ar ôl rhoi

genedigaeth, a'u bod wedi eu helpu i fwydo eu baban drwy'r dull o'u dewis a'u bod yn parchu eu penderfyniad. Fodd bynnag, dywedodd un claf ei bod yn teimlo nad oedd digon o wybodaeth na chynghor yn cael eu darparu ynghylch bwydo ar y fron.

Cadw'n iach

Gwelsom nad oedd llawer o wybodaeth yn cael ei harddangos i gleifion ar yr hysbysfyrddau, ac nad oedd taflenni ar gael yn hawdd er mwyn rhoi gwybodaeth i gleifion am sut i gadw'n ddiogel ac yn iach. Er bod yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig lle roedd defnyddio anwedd (vapour)/e-sigaréts wedi'i wahardd hefyd, ni welsom llawer o wybodaeth mewn perthynas â rhoi'r gorau i smygu yn yr uned.

Nid oedd llawer o wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos mewn perthynas â bwydo ar y fron, cyngor ar gyswllt croen â chroen, iechyd meddwl ôl-enedigol a chynghor cyffredinol ar gadw'n iach cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion a'r staff y gwnaethom siarad â nhw bod gwasanaethau cymorth iechyd meddwl amenedigol sefydledig ar gael os oedd angen.

Gwelsom lechen ar y wal yn datgan bod yr uned wedi cael ei hachredu gan UNICEF⁴ yn 2017 am fod yn gyfeillgar i fabanod. Caiff yr achrediad ei adolygu bob tair blynedd sy'n cadarnhau cydymffurfiaeth â hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom llawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn yn dosturiol, yn garedig ac yn gyfeillgar tuag at y cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom y

⁴ <https://www.unicef.org.uk/babyfriendly/> - Mae'r Fenter Cyfeillgar i Fabanod yn trawsnewid gofal iechyd i fabanod, eu mamau a theuluoedd yn y DU, fel rhan o bartneriaeth fyd-eang ehangach rhwng Sefydliad Iechyd y Byd ac Unicef.

staff yn trin y cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Gwelsom fod y staff yn rhoi o'u hamser i gefnogi cleifion pan fo angen. Roedd y mwyafrif o'r sylwadau yn holiaduron y cleifion yn gadarnhaol iawn.

Gwelsom y staff yn hybu preifatrwydd ac urddas wrth helpu'r cleifion gyda'u gofal personol. Gwnaethom edrych ar y dogfennau gofal ac ni welsom unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder ynghylch gofal ag urddas.

Roedd cyfleusterau en-suite yn rhai o'r ystafelloedd geni ac ôl-enedigol a oedd yn helpu i hybu cysur ac urddas y cleifion yn ystod eu cyfnod yn yr ysbyty. Lle nad oedd cyfleusterau en-suite ar gael, roedd cyfleusterau toiledau a rennir ar gael gerllaw.

Roedd ystafell bwydo breifat i famau newydd ar y ward ôl-enedigol a oedd yn golygu y gallai'r mamau dreulio amser preifat a phersonol gyda'u babanod.

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi gweld yr un fydwraig yn yr uned eni ag y gwnaethant yn eu hapwyntiadau cynenedigol. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym hefyd eu bod wedi bod yn feichiog am rhwng chwech a deuddeg wythnos pan gawsant eu hapwyntiad cyntaf. Roedd sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r ffaith bod y cleifion yn cael cynnig dewis ynghylch ble i gael eu babi, gyda'r rhan fwyaf yn cytuno'n gryf neu'n cytuno bod hyn yn digwydd.

Dywedodd y mwyafrif o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant profedigaeth ac y byddent yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r polisïau cywir, er mwyn eu galluogi i roi gofal priodol i unrhyw rieni sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Roedd ystafell brofedigaeth bwrpasol yn yr uned. Gwelsom fod yr ystafell hon yn cynnig amgylchedd addas i'r cleifion a'u teuluoedd. Os oedd yr ystafell hon yn cael ei defnyddio, dywedwyd wrthym y byddai ystafell ôl-enedigol wag ar gael. Dywedwyd wrthym fod bydwraig profedigaeth arweiniol yn gweithio ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd i gynnig cymorth a chynghor yn ystod oriau gwaith craidd. Cododd rhai aelodau o'r staff bryderon am y ffaith bod un aelod o staff arweiniol yn darparu cymorth i'r holl leoliadau mamolaeth mewn ardal ddaearyddol eang. Tynnodd un aelod o staff sylw at y ffaith nad oedd neb ar gael i gyflenwi'r rôl a'i gofynion os oedd yr arweinydd profedigaeth yn absennol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod hyrwyddwyr profedigaeth yn cael eu datblygu ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd er mwyn cefnogi'r broses o gynllunio olyniaeth, a chawsom sicrwydd ynglŷn â hyn.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod cyfarwyddiadau i'r uned famolaeth yn cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty. O ganlyniad, roedd yn hawdd i bobl ddod o hyd i'r lle

priodol i dderbyn gofal. Fodd bynnag, gwelsom fod nad oedd gwybodaeth glir am barcio yn cael ei darparu i gleifion ac ymwelwyr â'r ysbty.

Nid oedd manylion staffio dyddiol yr uned wedi'u harddangos yn yr uned i roi gwybod i'r cleifion pwy fyddai'n gofalu amdanynt.

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth ar gael yn Saesneg, gydag ychydig o wybodaeth yn Gymraeg. Dywedwyd wrthym fod rhaglen dreigl ar waith i sicrhau bod yr holl wybodaeth yn ddwyieithog, a bod y wybodaeth bresennol yn cael ei chyfieithu ar hyn o bryd.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut y gellir cael gafael ar y rhain. Gellid adnabod bydwragedd Cymraeg o'r logo siaradwr Cymraeg⁵ ar eu gwisg neu laniard.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am y staff yn cael ei harddangos i'r cleifion.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn teimlo'n gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddynt â'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n hyderus i ofyn am help neu gyngor pan oedd angen cymorth arnynt. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion hefyd fod y bydwragedd a'r staff meddygol wedi gwrandao arnynt yn ystod eu harhosiad. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym fod y staff bob amser wedi siarad â nhw am eu dewisiadau geni.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn ceisio cynnal preifatrwydd cleifion ym mhob rhan o'r uned wrth rannu gwybodaeth. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd llawer o breifatrwydd yn y gilfan gynenedigol â chwe gwely am ei bod mor fach, ac nad

⁵ Mae brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi'r siaradwyr Cymraeg yn eich tîm. Os yw rhywun yn gwisgo bathodyn, neu laniard, mae hyn yn dangos y gallant sgwrsio yn Gymraeg.

oedd y llenni yn cynnig unrhyw breifatrwydd wrth drafod materion cyfrinachol. Fodd bynnag, gwnaethom sylwi ei bod yn arfer cyffredin i'r staff gau drysau ystafelloedd ymgynghori wrth ddarparu gofal, er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom fod staff yr uned yn cyfarfod ddwywaith y dydd, ar adegau newid sifft. Yn ystod y cyfarfodydd trosglwyddo a fynychwyd gennym, gwelsom gyfathrebu effeithiol rhwng y staff wrth drafod anghenion a chynlluniau'r cleifion, gyda'r bwriad o gynnal parhad gofal. Gwelwyd nad oedd gwybodaeth am drosglwyddo cleifion yn cael ei chasglu na'i chofnodi'n weithredol, ac nad oedd unrhyw dystiolaeth fod taflen presenoldeb yn cael ei defnyddio'n gyson. Fodd bynnag, dywedodd tîm yr uwch-reolwyr wrthym fod taflenni trosglwyddo ar waith a dylid eu defnyddio bob dydd.

Roedd gan bob ward fwrdd cipolwg ar statws cleifion⁶ a gwelwyd nad oedd yn cael ei ddiweddarau'n gyson nac yn brydlon. Dylid defnyddio'r byrddau hyn i nodi materion ynglŷn â diogelwch cleifion a gofynion neu gynlluniau gofal dyddiol yn glir, yn ogystal â'r cymorth unigol angenrheidiol a'r trefniadau rhyddhau cleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Gwella'r defnydd o gofnodion a gwybodaeth drosglwyddo ysgrifenedig
- Sicrhau y caiff byrddau cipolwg ar statws cleifion eu diweddarau'n gyson er mwyn sicrhau bod y wybodaeth ddiweddaraf ar gael i bob claf.

Gofal amserol

Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw fod y staff yn gymwynasgar iawn ac y byddent yn diwallu eu hanghenion mewn ffordd amserol. Dywedodd y staff

⁶ Mae'r Bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion yn cael ei ddefnyddio ar wardiau ysbyty er mwyn arddangos gwybodaeth bwysig am gleifion megis: lefelau risg o haint, symudedd, llif derbyn a rhyddhau, nifer y gwelyau llawn, timau nyrsio a meddygol, ymhlith pethau eraill.

wrthym hefyd y byddent yn gwneud eu gorau i sicrhau bod y cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd er mwyn diwallu eu hanghenion personol, maeth a chysur. Gwelwyd hyn yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym. Gwelsom hefyd fod clychau galw yn hygyrch iawn ac yn cael eu hateb yn brydlon. Cadarnhawyd hyn gan y cleifion hefyd.

Gwelsom fod arsylwadau cleifion yn cael eu cofnodi ar siart a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn nodi'r cleifion a allai fynd yn sâl neu a allai ddatblygu sepsis⁷. Roedd y staff yn ymwybodol o'r adnodd sgrinio a'r system rhoi gwybod am sepsis, a oedd yn sicrhau ei bod yn bosibl cymryd camau priodol ac amserol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom ei bod yn hawdd i bawb ddefnyddio'r cyfleusterau ym mhob rhan o'r uned.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn yr uned a gwelsom dystiolaeth fod credoau personol a dewisiadau crefyddol y cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cynenedigol. Roedd hyn er mwyn helpu i sicrhau bod y credoau a'r dewisiadau hynny'n cael eu parchu yn ystod eu gofal beichiogrwydd, esgor ac ôl-enedigol. Gwelsom fod cynlluniau gofal yn hybu annibyniaeth pobl yn seiliedig ar asesiad o'u galluoedd.

Gwelsom fod y staff meddygol a'r bydwagedd yn hybu gofal a dewisiadau unigol i gleifion. Roedd cymorth gan bartner geni yn cael ei hybu hefyd. Roedd pob un o'r ystafelloedd geni yn cynnwys adnoddau digonol. Roedd un o'r ystafelloedd geni yn cynnwys pwll geni wedi'i blymio y gallai'r cleifion ei ddefnyddio wrth esgor.

Roedd llinell iaith ar gael ar gyfer y cleifion hynny nad oedd Saesneg yn iaith gyntaf iddynt, a oedd yn golygu eu bod yn gallu derbyn gofal a fyddai'n briodol i'w hanghenion. Gwelsom hefyd fod anghenion cyfathrebu, gan gynnwys unrhyw angen am ddehonglwyr neu sicrhau bod y wybodaeth ar gael mewn ieithoedd eraill, yn cael eu hasesu'n briodol yn ystod apwyntiadau cynenedigol.

⁷ Mae sepsis yn adwaith i haint sy'n peryglu bywyd. Mae'n digwydd pan fydd y system imiwnedd yn gorymateb i haint ac yn dechrau niweidio meinweoedd ac organau'r corff.

Hawliau pobl

Roedd teuluoedd/gofalwyr yn gallu rhoi cymorth i gleifion a chwarae rhan yn eu gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cael gwybod am ddewisiadau'r cleifion.

Roedd yr ysbyty'n darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd ganddo gapel ysbyty. Dywedwyd wrthym hefyd am drefniadau i alluogi cleifion o grefyddau gwahanol i ddefnyddio'r ystafelloedd gweddïo er mwyn diwallu eu hanghenion ysbrydol.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gwybodaeth ar gael ar wefan y bwrdd iechyd am y weithdrefn i'r cleifion ei dilyn os oedd ganddynt unrhyw bryderon roeddent yn dymuno eu codi. Roedd gwybodaeth ar gael yn yr uned. Dywedodd tîm yr uwch-reolwyr wrthym fod rheolwyr wardiau'r uned yn gwbl ymwybodol o'r Rheoliadau Gweithio i Wella⁸ a sut i ddelio â chwynion. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gwybod sut i ddelio â chwynion ond gwnaethant ddweud wrthym nad oeddent fel rheol yn rhoi manylion i gleifion am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC)⁹ a allai gynnig gwasanaethau eirioli a chymorth i godi pryder am eu gofal.

Ar ôl cael cwyn anffurfiol, dywedwyd wrthym y byddai'r prif fetronau yn cysylltu â'r claf i gynnig trafod y mater, ac y byddai hefyd yn hyrwyddo'r weithdrefn gwyno ffurfiol pe bai am ddilyn y llwybr hwn. Eglurodd y staff eu bod yn gwneud hyn er mwyn mynd i'r afael â phryderon, ond hefyd i dynnu sylw at unrhyw faterion ymarfer y gall fod angen eu datrys. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu parhaus â chleifion a'u teuluoedd drwy gydol unrhyw achos lle roedd pryder wedi dod i law, a'u bod yn cael y cyfle i gyfarfod ag uwch-aelodau o'r staff er mwyn trafod eu pryderon ymhellach.

Gwnaethom siarad â'r tîm Gwasanaethau Cyngor a Chyswllt Cleifion yn yr ysbyty. Ei rôl oedd sicrhau y rhoddir pwyslais ar gael barn ar y gofal a'r gwasanaethau a oedd yn cael eu darparu. Esboniodd y tîm fod unrhyw

⁸ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

⁹ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

wybodaeth a oedd yn ymwneud â'r uned famolaeth yn cael ei rhannu â thimau'r ward.

Dyweddodd y staff wrthym eu bod yn ceisio adborth cleifion yn rheolaidd drwy gardiau adborth neu holiaduron, gan gynnwys y cerdyn sylwadau 'dweud eich dweud' a oedd yn cael ei roi i bob menyw ar ôl rhoi genedigaeth. Mae tîm yr uwch-reolwyr yn gweithredu ar y rhain a chânt eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd gwersi a ddysgwyd ac arfarniadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cael gwybod am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwnaethom nodi 12 o bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad. O ganlyniad i hynny, ni chawsom sicrwydd y gellid darparu gofal cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol bob amser. Mae hyn am i ni nodi materion ynglŷn â gwiriadau'r cyfarpar dadebru, trefniadau storio meddyginiaeth yn ddiogel, lliniaru risgiau o ran herwydio babanod yn yr uned, rhwystrau i'r allanfa dân a'r uned gofal dwys, diogelwch cofnodion cleifion a phryderon ynghylch rhagnodi meddyginiaeth i ysgogi cyfnod esgor.

Gwnaethom hefyd nodi meysydd i'w gwella o ran atal a rheoli heintiau.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod rhai prosesau da ar waith yn yr uned, megis trefniadau ar gyfer rheoli digwyddiadau clinigol.

Gwelsom fod diogelwch cleifion yn cael ei hybu mewn cynlluniau gofal dyddiol ac ategwyd hyn yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym.

Roedd y gwasanaeth yn dilyn trefniadau priodol ar gyfer gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys darparu hyfforddiant.

Gwelsom fod angen adolygu cymorth a darpariaeth bwydo ar y fron yn yr uned.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ymddengys bod yr uned yn lân, wedi'i goleuo'n briodol ac wedi'i hawyru'n dda. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r ardaloedd yn daclus ac wedi'u trefnu'n dda. Fodd bynnag, ar ward 12, gwelsom focsystys cardfwrdd wedi'u storio ar goridorau a oedd yn peri risg o faglu a chwympto. Yn ogystal â hyn, gwelsom fod diffoddydd tân

wedi'i osod ar y llawr, heb unrhyw gymhorthion, ger mynedfa'r prif goridor yn arwain at ward 12. Roedd hyn am nad oedd y braced dal wedi'i osod yn iawn ar y wal. Cafodd y materion hyn eu hwchgyfeirio at Fetron yr uned a'u hunioni ar unwaith.

Gwelsom fod drysau'r ystafell amlbwrpas, y gegin a'r ystafell olchi yn cael eu dal ar agor ym mhob rhan o'r uned. Nid oedd cypyrddau meddyginiaeth yn cael eu cloi yn ystod diwrnod cyntaf yr arolygiad a gwelsom nad oedd cabinetau storio cofnodion cleifion yn cael eu cloi yn ystod yr arolygiad a bod plocyn yn cael ei ddefnyddio i ddal y drysau ar agor. Teimlwyd y gallai hyn beri risg bosibl i ddiogelwch y cleifion a hefyd risg i storio gwybodaeth adnabyddadwy am gleifion yn briodol ac yn ddiogel. Codwyd y materion hyn ar adeg yr arolygiad a, lle bynnag y bo'n bosibl, cawsant eu hunioni ar unwaith. Rydym wedi cynnwys manylion pellach am wybodaeth cleifion yn yr adran Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom nodi bod gwelyau a chadeiriau olwyn yn llenwi'r coridor sy'n cysylltu â'r Uned Gofal Dwys, a'r llwybr i'r allanfa dân yn yr ystafelloedd esgor. Roedd hyn yn golygu, pe bai argyfwng, megis tân, y byddai risgiau o ran gwagio'r adeilad yn ddiogel. Cynhaliwyd asesiad risg mewn perthynas â throsglwyddo cleifion ar frys i'r Uned Gofal Dwys o'r uned esgor, ond nid oedd hyn yn rhoi sicrwydd i ni o ran gwagio adeilad yn ddiogel ac yn effeithiol.

Roedd y tîm arolygu yn ystyried diogelwch babanod newydd-anedig yn yr ystafelloedd esgor ac ar Ward 12. Roedd mesurau diogelwch annigonol ar waith i sicrhau bod y babanod yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn yn llawn bob amser. Roedd y gwasanaeth yn defnyddio system larwm i ddiogelu cotiau a oedd yn cael ei hactifadu gan allwedd (ar gyfer y fam neu'r fydwraig). Pan fyddai'n cael ei throi ymlaen, pe bai'r baban yn cael ei godi o'r cot, byddai'r larwm yn canu. Fodd bynnag, er bod camerâu teledu cylch cyfyng ar waith, nid oedd allanfeydd yn cael eu monitro bob amser, gan gynnwys yr uned esgor a Ward 12, a oedd yn galluogi cleifion ac ymwelwyr i adael ar unrhyw adeg. Roedd risg uchel y gellid symud y cot (a'r baban) o'r uned/ward, neu y gallai baban gael ei gario allan o'r uned gan fam neu ymwelydd, os nad oedd larwm y cot yn cael ei actifadu gan yr allwedd. Mae hyn felly yn peri risg uniongyrchol i ddiogelwch babanod newydd-anedig yn yr uned.

Cawsom wybod bod ymarfer herwydio wedi ei gynnal yn gynharach yn y flwyddyn, ond ni chawsom sicrwydd bod y materion y gwnaeth tîm yr arolygiad eu nodi wedi cael eu hystyried bryd hynny, cyn hynny neu ers hynny.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau yn yr uned ar gyfer cael cymorth meddygol mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf. Gwelsom fod seiniwr brys a chlychau galw ar gael ym mhob ystafell. Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Roedd y cyffuriau brys hefyd wedi'u storio ar y troli dadebru brys, ond ni chawsom sicrwydd bod cyflenwad, na dyddiadau a chyflwr y cyfarpar hwn, yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Ymdriniwyd â'r pryderon uniongyrchol, y tynnwyd sylw atynt uchod, o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Roedd hyn yn golygu ein bod wedi ysgrifennu at y gwasanaeth yn union wedi'r arolygiad gan nodi bod angen cymryd camau unioni ar frys. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwelsom rwydi gwagio adeilad mewn argyfwng yn yr uned. Fodd bynnag, nid oedd y rhain yn cael eu storio yn agos at y pwll geni. Cawsom sicrwydd bod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w defnyddio mewn argyfwng.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafelloedd amlbwrpas yn cael eu trefnu i safonau uchel.

Atal cwmpïadau

Gwelsom fod asesiad risg ar waith ar gyfer cleifion yn yr uned yn ogystal â'r rhai sy'n defnyddio'r pyllau geni. Dywedwyd wrthym y rhoddir gwybod am unrhyw achosion o glaf yn cwmpo drwy system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd iechyd. Eglurodd y staff y byddai'r system cofnodi digwyddiadau yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu ac y cymerir camau priodol.

Fel y nodwyd eisoes, gwelsom amrywiaeth o beryglon baglu yn yr uned, megis bocsys gwag mewn coridorau a thâp ar lorïau yn cuddio sylweddol.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod ardaloedd clinigol yr uned yn lân ac yn daclus ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd y dodrefn a'r ffitiadau yn yr uned mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. Gwelsom lawer o ardaloedd yn yr uned lle roedd tâp wedi cael ei ddefnyddio ar y llawr i guddio toriadau yn arwyneb y llawr. Roedd hyn yn peri risg sylweddol i safonau atal a rheoli heintiau a chafodd hyn ei uwchgyfeirio at dîm yr uwch-reolwyr yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom fod rhai aelodau o'r staff, ond nid pob un, yn cynnal y safonau o ran bod yn Noeth o dan y Penelin¹⁰ a gwelsom ddulliau hylendid dwylo da hefyd. Gwelsom fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Fodd bynnag, ni welsom bosteri wedi'u harddangos yn hybu'r weithdrefn gywir ar gyfer golchi dwylo fel sbardun gweledol ar gyfer y staff. Roedd gel saniteiddio alcohol ar gael ym mhob rhan o'r uned. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Dywedwyd wrthym fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan y bwrdd iechyd yn ddiweddar a dangoswyd y canlyniadau i ni. Gwelwyd bod cydymffurfiaeth yn dda a bod unrhyw welliannau a nodwyd wedi cael eu gwneud mewn ffordd amserol. Gwelsom fod amserlenni glanhau ar gyfer yr uned ar waith ac yn cael eu cwblhau gan y bydwagedd yn gyson. Gwelsom hefyd fod labeli penodol ar gyfarpar i ddynodi ei fod yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.

Ystyriodd y tîm arolygu'r mesurau Atal a Rheoli Heintiau sydd ar waith yn y theatrau sydd wedi'u lleoli ger yr ystafelloedd esgor, ac roedd ganddynt bryderon ynglŷn â'r amgylchedd. Roedd llawer iawn o dâp wedi cael ei ddefnyddio ar y llawr rhwng yr ystafell anesthetig a'r theatr llawdriniaeth, sy'n golygu y gall llwch a malurion ymgasglu, a chreu bacteria hefyd. Gwelsom nad oedd y llawr wedi'i selio i'r ymylon, gyda bwlch llac rhwng y llawr a'r sgyrtin sy'n golygu ei bod yn anodd ei lanhau'n ddigonol, ac felly, mae'n casglu llwch, malurion a bacteria. Cynhaliwyd archwiliad rheoli ac atal heintiau ym mis Mehefin 2019, a dynnodd sylw at y ffaith nad oedd y safonau Atal a Rheoli Heintiau yn cael eu cynnal o ran yr amgylchedd, y lloriau a'r waliau yn benodol. Gwelsom fod drysau dwbl y theatrau a'r coridor yn agored lled y pen, gyda hambwrdd ar y troli yn cynnwys offerynnau, yr oedd eu pecynnau allanol wedi'u sterileiddio wedi cael eu

¹⁰ Yr arfer gorau yw bod y staff sy'n ymwneud â gofal y cleifion yn uniongyrchol yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd nac ewinedd ffug.

dadlapiio, wrth aros am glaf. Yn ogystal â hyn, nid oedd mynediad i'r theatrau yn ddiogel rhag ymwelwyr neu gleifion a allai fod yn crwydro o amgylch yr uned.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B. Gwelsom gydymffurfiaeth â hyfforddiant atal a rheoli heintiau, ac eglurodd y staff y byddai unrhyw bryderon a godir ynglŷn ag atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgyfeirio at uwch-aelodau o'r staff.

Roedd rhai ystafelloedd ochr yn yr uned ar gael i'r cleifion eu defnyddio pe bai angen lleihau'r risg o haint a helpu i atal heintiau rhag cael eu trosglwyddo i'r cleifion eraill.

Dywedwyd wrthym fod y pwll geni'n cael ei lanhau bob dydd a bod profion dŵr rheolaidd yn cael eu cynnal, fel y nodir yn y canllawiau. Fodd bynnag, gwelsom fod nifer o staeniau yn y pwll geni, a gellid camgymryd felly nad yw'r pwll yn lân.

Er bod yr uned yn cael ei glanhau'n ddigonol ar y cyfan, gwelsom fod rhai ardaloedd yn yr uned lle nad oedd yr amserlen lanhau wedi cael ei chwblhau gan y glanhawyr domestig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod adolygiad noeth o dan y penelin yn cael ei gynnal
- Bod posteri golchi dwylo yn cael eu harddangos
- Ymchwilio i opsiynau i gael gwared ar y staeniau yn y pwll geni
- Bod yr amserlenni glanhau'n cael eu cwblhau'n briodol.

Maeth a hydradu

Yn ystod ein harolygiad, edrychom ar y ffordd roedd anghenion maeth y cleifion yn cael eu diwallu yn ystod y dydd a'r nos.

Roedd cyfleusterau ar gael yn yr uned i brynu diodydd os oedd angen. Gwelsom y cleifion yn cael cynnig diodydd poeth ac oer ac roedd jygiau dŵr o fewn cyrraedd hawdd. Gallai staff yr uned ddefnyddio cyfleusterau i wneud tost a diodydd ar gyfer y cleifion y tu allan i oriau craidd. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y bwyd a'r diodydd a oedd ar gael o safon uchel. Fodd bynnag, dywedodd y cleifion wrthym nad oedd llawer o ddewisiadau bwyd i gleifion sydd â diabetes.

Yng nghofnodion gofal y cleifion a adolygwyd gennym, gwelsom fod gofynion maeth y cleifion yn cael eu dogfennu'n dda.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dewisiadau maethlon yn cael eu hadolygu er mwyn darparu ar gyfer pob claf yn yr uned.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn yr uned. Cynhaliwyd gwiriadau dyddiol o dymheredd yr oergell sy'n storio meddyginiaeth. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod materion o ran anghysondebau tymheredd yn cael eu huwchgyfeirio.

Ystyriodd y tîm arolygu'r trefniadau ar gyfer storio meddyginiaethau'n ddiogel ym mhob rhan o'r uned a gwelsom fod nifer o feysydd lle nad oedd meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel, er mwyn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig a chadw'r cleifion yn ddiogel. Gwelsom nad oedd drws wedi'i osod i'r ystafell meddyginiaethau yn yr ystafelloedd esgor. Roedd hylifau presgripsiwn megis potasiwm clorid mewnwythiennol a halwynau arferol yn weladwy ac yn hawdd eu cyrraedd ar silffoedd wrth fynd i mewn i'r ystafell, a gyferbyn â'r fynedfa. Yn ogystal â hyn, nid oedd yr oergell feddyginiaeth wedi'i chloi chwaith.

Gwnaethom nodi bod symiau mawr o fitamin K ac ampylau lignocaine yn cael eu storio mewn trolïau nad oeddent wedi'u cloi ac a oedd yn hawdd eu cyrraedd yn yr ystafelloedd esgor a hefyd, wrth ymyl y rhain, roedd chwistrelli a nodwyddau.

Roedd yn bryder ychwanegol ein bod wedi tynnu sylw'r uwch aelodau o staff at y mater mewn perthynas â'r hylifau mewnwythiennol yn yr ystafell meddyginiaethau pan wnaethom gyrraedd yr uned, ond nad oedd y mater wedi cael ei ddatrys o hyd ar ddiwrnod olaf yr arolygiad.

Adolygodd y tîm arolygu y broses o ran ysgogi cyfnod esgor, a nodwyd bod meddygon yn rhagnodi PROPESS a Prostaglandins (hormonau a ddefnyddir wrth ysgogi cyfnod esgor i agor ceg y groth), heb unrhyw awgrym na chyfarwyddyd o ran gofynion rhoi'r feddyginiaeth. Dywedodd y staff wrthym y tybir y byddai'r fydwaig sy'n gofalu am y fenyw sy'n esgor yn gwybod pryd i ddefnyddio pa feddyginiaeth. Fodd bynnag, roedd y tîm arolygu'n teimlo nad oedd hwn yn ymarfer diogel, oherwydd ei fod yn peri risg o roi'r feddyginiaeth anghywir neu amhriodol.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddyginiaeth a gwelsom fod y mwyafrif ohonynt wedi cael eu cwblhau'n briodol. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd y presgripsiynau yn cael eu llofnodi a'u dyddio'n gyson pan oedd meddyginiaeth yn cael ei rhagnodi a'i rhoi. Roedd polisi rheoli meddyginiaethau'r bwrdd iechyd ar gael yn electronig ac roedd hefyd yn cael ei storio mewn ffeil yn ardaloedd yr uned. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gwybod ble i ddod o hyd i hyn pan fydd angen.

Roedd cymorth fferyllol ar gael ar gyfer yr uned ac roedd proses gyfrifiadurol y tu allan i oriau ar gael i'r staff weld cyflenwad ac argaeledd cyffuriau yn yr ysbyty yn ystod yr adegau hyn, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw oedi wrth roi meddyginiaeth i'r cleifion. Roedd gan yr uned gyflenwad o feddyginiaeth y gallai'r cleifion fynd â hi adref gyda nhw hefyd, a oedd yn sicrhau bod y cleifion yn gallu cael eu rhyddhau'n amserol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau rheolaidd o siartiau presgripsiynau yn cael eu cynnal.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiâu a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg. Roedd hyfforddiant diogelu'n orfodol, a chadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd bydwaig ddiogelu arweiniol benodedig ar gyfer y bwrdd iechyd, a fyddai'n rhoi cymorth a hyfforddiant i'r staff. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant diogelu yn cynnwys arweiniad ar anffurfio organau cenhedlu menywod, cam-drin domestig, cam-fanteisio rhywiol a chleisiau ar fabanod, yn ogystal â'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu.

Dywedwyd wrthym fod sesiynau goruchwyllo diogelu ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y staff yn cael eu hannog i drafod materion mewn sesiwn goruchwyllo grŵp. Roedd goruchwyllo diogelu ffurfiol wedi cael ei gyflwyno'n ddiweddar, ac roedd yn orfodol i'r staff fynd i ddwy sesiwn y flwyddyn. Roedd y bwrdd iechyd wedi dechrau cyflwyno'r broses i'r bydwragedd cymunedol yn ddiweddar, gyda'r bwriad o ymestyn hyn i weddill y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i roi gwybod i'r staff am bryderon diogelu mewn perthynas â derbyn cleifion i'r uned, er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu'n briodol. Fodd bynnag, ar ôl yr adolygiad, ymddengys nad oedd nodiadau o ysbytai eraill sy'n darparu gofal cynenedigol ar gael, neu eu bod yn anghydnaws, pan fydd baban yn cael ei eni mewn byrddau iechyd gwahanol. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym mai cyfrifoldeb y bwrdd iechyd sy'n trosglwyddo yw cyfleu pryderon i'r bwrdd iechyd sy'n derbyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau diogelu yn cael eu hadolygu.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwnaethom ystyried y trefniadau ar gyfer archwilio cyfarpar dadebru yn yr uned. Gwelsom fod archwiliadau o'r cyfarpar dadebru newyddenedigol¹¹ yn yr uned, a gwiriadau'r troli dadebru brys ar ward 12, yn cael eu cofnodi'n anghyson, ac nad oedd y cofnodion yn dangos bod archwiliadau wedi cael eu cynnal bob dydd.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Gwneir argymhelliad ychwanegol yn rhan 'Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yr adroddiad hwn ynglŷn â goruchwyllo'r gwaith o archwilio'r cyfarpar o ddydd i ddydd.

Gwelsom fod archwiliadau o gyfarpar arall, fel peiriannau monitro pwysedd gwaed, yn cael eu cynnal mewn modd cyson a rheolaidd.

Gofal effeithiol

¹¹ Dyfais i'w chael yn ystod esgor a geni, sy'n cyfuno llwyfan therapi cynhesu effeithiol ynghyd â'r elfennau sydd eu hangen ar gyfer argyfwng clinigol a dadebru.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Yn ystod ein harolygiad, ar sail ein pryderon uniongyrchol a nodwyd yn ystod yr arolygiad, ni chawsom sicrwydd y gellid darparu gofal cleifion yn ddiogel ac yn effeithiol bob amser. Fel y disgrifir uchod, roedd hyn am nad oedd gwiriadau digonol yn cael eu cynnal ar y cyfarpar brys. Roedd rhagnodi meddyginiaeth i ysgogi cyfnod esgor yn agored i ddehongliad amrywiol. Hefyd, nid oedd gwybodaeth bersonol yn cael ei diogelu bob amser. Gwelsom hefyd nad oedd gweithgareddau ar y wardiau'n cael eu goruchwyllo'n ddigonol gan reolwyr i sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau hanfodol yn cael eu dilyn i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, roedd yn galonogol gweld bod y staff wedi ymateb yn gyflym i fynd i'r afael â'r materion a godwyd gennym.

Dywedodd y staff wrthym y byddent bob amser yn sicrhau bod y cleifion yn yr uned eni yn gyfforddus ac yn cael gofal da, a chadarnhawyd hyn gan y cleifion. Byddai dulliau lleddfu poen ar gael i'r cleifion yn ystod y cyfnod esgor.

Gwelsom y staff yn blaenoriaethu angen clinigol a gofal y cleifion yn effeithiol yn yr uned ac, o gofnodion y cleifion a adolygwyd gennym, roedd yn amlwg bod blaenoriaethu angen clinigol yn flaenllaw wrth gynllunio gofal.

Er i ni weld bod cydlynnydd bwydo ar y fron wedi cael ei benodi, dywedodd y staff wrthym fod y llwyth gwaith sylweddol yn golygu bod gweledd y rôl hybu bwydo ar y fron wedi lleihau'n fawr yn yr uned.

Dywedodd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn gallu ei roi i'w cleifion.

Gwelsom fod y cleifion yn yr uned i'w gweld yn gyfforddus a'u bod yn cael gofal da. Gwelsom dystiolaeth dda hefyd o gynlluniau asesu a thriniaeth feddygol yng nghofnodion y cleifion a adolygwyd gennym.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cymorth bwydo ar y fron ei adolygu a bod gweledd yn cynyddu ym mhob rhan o'r uned.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd bydwaig ymchwil glinigol a gwelliant arweiniol yn cael ei chyflogi, a oedd yn gweithio ar draws gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd. Dywedwyd

wrthym fod prosiectau i gefnogi addysg o ran GAP a GROW,¹² epilepsi mewn cleifion, adolygu dogfennaeth yn llawn a chreu llwybrau gofal ym mhob rhan o'r uned wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar. Dywedwyd wrthym y byddai gwaith pellach yn cael ei wneud i benodi hyrwyddwyr arloesedd sy'n fydwragedd ym mhob rhan o'r gwasanaeth, a fyddai'n cael eu hannog i ymgysylltu â'r tîm ehangach a'u cefnogi mewn prosiectau arloesedd ac ymchwil.

Gwelsom fod bydwaig datblygu ymarfer mamolaeth y bwrdd iechyd yn hybu Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol (PROMPT)¹³, yn barhaus a oedd wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus yn y gwasanaethau mamolaeth ym mhob rhan o'r bwrdd iechyd.

Roedd yr uned yn un o fabwysiadwyr cynnar y fenter gwella ansawdd ar gyfer rheoli gwaedlifau ôl-enedigol (Strategaeth Obstetrig Cymru Gyfan), gyda thystiolaeth yn y cofnodion iechyd a adolygwyd gan y tîm arolygu bod argymhellion y strategaeth yn parhau i gael eu rhoi ar waith.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Ystyriodd y tîm arolygu y trefniadau ar gyfer cyfrinachedd cleifion a chydymffurfiaeth â Gwybodaeth Llywodraethu a'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 yn yr uned. Yn yr uned esgor, gwelsom nad oedd gwybodaeth cleifion yn cael ei rheoli na'i storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad anawdurdodedig a chynnal cyfrinachedd cleifion. Roedd hyn yn cynnwys cypyrddau a oedd yn cynnwys nifer o gofnodion cleifion nad oeddent wedi'u cloi, gyda'r drysau'n agored lled y pen. Roedd cofrestr geni wedi cael ei gadael ar ddesg a gwelsom wybodaeth y gellid ei defnyddio i adnabod cleifion mewn teclyn stacio gwybodaeth cleifion. Roedd y rhain wedi'u lleoli mewn coridor y gall cleifion/ymwelwyr ei gyrraedd yn hawdd.

¹² GAP - Protocol Asesu Twf – GROW – Y pwysau gorau posibl o ran beichiogrwydd (Gweithdrefn sydd â'r nod o fonitro problemau posibl yn ystod beichiogrwydd, yn benodol i fenywod sydd wedi rhoi genedigaeth i fabanod bach yn y gorffennol)

¹³ PROMPT – Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol. Mae'n bwysig hyfforddi timau i weithio fel timau yn eu hamgylchedd gwaith.

Roedd yn destun pryder i weld nad oedd y mater wedi'i ddatrys ar ddiwrnod olaf yr arolygiad, er i ni godi'r mater hwn pan wnaethom gyrraedd yr uned am y tro cyntaf.

Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Roedd y fewnrwyd yn llawn gwybodaeth i'r staff, gan gynnig amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau clinigol yn ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Fodd bynnag, gwelwyd nad oedd llawer o'r rhain yn gyfredol a bod angen eu hadolygu. Gwelsom fod yr uned yn defnyddio dangosfwrdd mamolaeth. Adnodd electronig yw hwn i fonitro perfformiad clinigol eu gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu llywodraethu. Mae hyn hefyd yn helpu i nodi materion sy'n ymwneud â diogelwch cleifion fel y gellir cymryd camau gweithredu amserol a phriodol i sicrhau gofal o ansawdd uchel. Dywedwyd wrthym fod gan yr holl staff yn yr uned fanylion mewngofnodi i gyfrifiadur er mwyn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei llywodraethu.

Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oeddent yn gallu cael mynediad at y porth clinigol, lle y caiff canlyniadau profion eu cadw. Teimlwyd bod hyn yn cael effaith andwyol ar y gofal a ddarperir, gan achosi oedi wrth gynllunio gofal a rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn effeithlon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod polisiâu a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu a'u diweddarau o fewn amserlenni priodol
- Bod mynediad at y porth clinigol yn cael ei adolygu.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod safon y gwaith o gadw cofnodion yn ddigonol, gyda chynlluniau gofal wedi'u dogfennu'n dda rhwng timau amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, roedd rhai cofnodion cleifion a welsom yn anhrefnus ac yn anodd eu defnyddio. Gwelsom fod siartiau arsylwi a bwndeli llwybr gofal priodol yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, er i ni weld bod mesurau atal wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau na fyddai'r cleifion yn datblygu Thromboembolws Gwythiennol

(VTE)¹⁴ yn yr uned, nid oedd asesiadau risg wedi cael eu cofnodi er mwyn dangos y rheswm dros hyn.

Gwelsom anghysondebau hefyd yn y cofnodion iechyd meddygol a adolygwyd gennym gyda bylchau mewn meysydd megis llofnodion a dogfennaeth rhif cofrestru'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn dangos yr holl ofal a thriniaethau a ddarperir i'r cleifion a'u bod yn cyd-fynd â safonau cadw cofnodion proffesiynol. Gan gynnwys y gallu i adnabod pob gofalwr clinigol drwy edrych ar ei enw mewn llythrennau breision a'i rif Cyngor Meddygol Cyffredinol.

¹⁴ <https://www.nice.org.uk/guidance/ng89/chapter/Recommendations#risk-assessment>

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd bydwagedd arbenigol wedi cael eu penodi ar draws y bwrdd iechyd, a nodwyd gennym eu bod yn adnoddau defnyddiol a gwybodus ar gyfer timau'r uned.

Nododd y staff fod gwaith tîm amlddisgyblaethol da ar waith, a gwelsom dystiolaeth i gefnogi hyn.

Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth a rheolaeth dda ymhlith timau bydwreigiaeth a meddygol o fewn yr uned. Roedd aelodau o staff yr uned a gwblhaodd holiaduron a'r rhai y gwnaethom siarad â nhw'n gadarnhaol ar y cyfan ynghylch y cymorth roeddent yn ei gael gan yr uwch-staff.

Fodd bynnag, gwelsom anghysondeb o ran cydymffurfio â hyfforddiant gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ym mhob rhan o'r uned.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod y gwasanaeth wedi cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd i wella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd cyfarfodydd o'r fath yn cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth misol, cyfarfod adolygu archwiliadau misol a chyfarfod adolygu digwyddiadau o safbwynt clinigol obstetrig. Cynhaliwyd hefyd gyfarfodydd misol i drafod y broses sgrinio uwchsain, y ward esgor, a fforymau ôl-enedigol a newyddenedigol, a chyfarfod aml-ddisgyblaethol wythnosol.

Gwelsom fod gweithgarwch archwilio'n mynd rhagddo a oedd yn cael ei fonitro a'i gyflwyno mewn cyfarfodydd a fforymau ansawdd, diogelwch a risg priodol. Fodd bynnag, ar ôl siarad â'r staff, gwelsom fod angen gwella'r broses archwilio mewn perthynas â gwaith dilynol yn sgil canlyniadau archwilio, a bod angen gwneud mwy o waith i gryfhau'r sicrwydd yn y maes hwn.

Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd dangosfwrdd mamolaeth yn cael ei gynhyrchu bob mis, a oedd yn cynnwys gwybodaeth mewn perthynas â'r bwrdd iechyd cyfan, ond wedi'i dadansoddi i gynnwys gwybodaeth am bob ysbyty unigol. Roedd y dangosfwrdd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch clinigol, ysgogi cyfnod esgor a dangosyddion a digwyddiadau clinigol. Roedd y dangosfwrdd yn cael ei osod yn goch, yn felyn neu'n wyrdd yn dibynnu ar lefel y risg a oedd yn gysylltiedig â'r niferoedd a'r ffigurau.

Yn ogystal, cadarnhaodd yr uwch-dîm rheoli fod camau gweithredu ac argymhellion o archwiliadau mamolaeth cenedlaethol, fel Mamau a Babanod: Lleihau'r Risg drwy Ymchwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol (MBRRACE)¹⁵ ac Each Baby Counts,¹⁶ yn cael eu datblygu yn yr uned. Y nod yw gwella gofal a phrofiad cleifion a'r broses o adrodd ar gamau i leihau risg a diogelwch cleifion yn y dyfodol. Mae cyrff archwilio cenedlaethol perthnasol fel MBRRACE yn

¹⁵ MBRRACE - Mamau a Babanod: Mae MBRRACE (Mamau a Babanod: Lleihau'r Risg drwy Ymchwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol) ar waith ledled y DU gyda'r nod o gyflwyno gwybodaeth gadarn i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a babanod diogel, teg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

¹⁶ Each Baby Counts – rhaglen gwella ansawdd genedlaethol Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr i leihau nifer y babanod sy'n marw neu sy'n dioddef anabledd difrifol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod esgor.

dilysu'r gwaith hwn yn allanol bob blwyddyn, a gwneir gwaith parhaus i sicrhau bod yr uned yn cydymffurfio â'r argymhellion a wneir.

Roedd y bwrdd iechyd yn dangos proses glir a chadarn o ran rheoli digwyddiadau clinigol. Roedd bydwraig llywodraethu arweiniol wedi'i chyflogi, a oedd yn gyfrifol am adolygu ac ymchwilio i ddigwyddiadau clinigol a'u rheoli ar draws y bwrdd iechyd. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau ac nad oedd y rhain yn cael eu trin mewn modd cosbol byth. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym nad oedd gan bob uwch-aelod o'r staff fynediad at Datix i adolygu'r digwyddiadau a godir.

Roedd cyfarfodydd risg a llywodraethu misol yn cael eu cynnal ym mhob un o dri safle'r bwrdd iechyd lle câi digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt, ymchwiliadau a'u canfyddiadau eu trafod mewn fformat amlddisgyblaethol. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cynhyrchu a bod gwybodaeth/gwersi yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd er mwyn cefnogi newidiadau i ymarfer a dysgu. Roedd y fydwraig llywodraethu arweiniol yn cyflwyno themâu a thueddiadau yn y cyfarfod hwn, gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw feysydd ymarfer roedd angen mynd i'r afael â nhw yn y bwrdd iechyd. Fodd bynnag, roedd barn yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn tynnu sylw at yr anghysondebau yn y broses o rannu'r gwersi a ddysgwyd â'r holl dimau. Fodd bynnag, gwelsom dystiolaeth o gylchlythyr misol llawn gwybodaeth a ystyrir yn ffordd dda o roi adborth cadarnhaol i'r staff, ac yn ffordd o dynnu sylw at enghreifftiau o arferion da.

Cawsom sicrwydd bod y gofrestr risg fewnol yn cael ei monitro a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn ôl yr angen.

Dywedodd y staff fod yr arweinyddiaeth ddyddiol yn yr uned yn dda iawn. Fodd bynnag, dywedodd y staff wrthym yr hoffent gael eu grymuso ymhellach i wneud tasgau rheoli dyddiol, a'u bod yn teimlo y byddai hyn yn bosibl gyda chymorth priodol gan yr arweinwyr. Byddai hyn yn galluogi uwch-reolwyr i leihau'r straen ar eu gweithgareddau bob dydd yn y gwaith.

Gwelsom fod gwaith da yn cael ei wneud gan y fydwraig ymgynghorol i sicrhau arfer arbenigol, megis datblygu dulliau ymgysylltu â defnyddwyr, datblygu gwasanaeth strategol a chreu llawer o fentrau hyfforddi er mwyn gwella dysgu a datblygiad.

Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo nad oedd y broses o uno Ysbyty Tywysoges Cymru â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, a gynhaliwyd ym mis Ebrill eleni, wedi cael effaith negyddol ar y gofal roeddent yn gallu ei ddarparu. Fodd bynnag, roedd rhai staff wedi codi pryderon ynglŷn â'r

ffaith bod yr uwch-reolwyr, a oedd wedi cefnogi'r uned, wedi cael eu symud i gefnogi gwasanaethau mamolaeth mewn safle arall yn y bwrdd iechyd. Teimlodd y staff yn anesmwyth ynglŷn â'r penderfyniad hwn a byddai'n cael effaith negyddol ar forâl ac effeithlonrwydd yr uned o ganlyniad i ddiffyg cymorth gan uwch-reolwyr. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw hefyd, er bod rheolwyr y safle yn rhagorol ac yn gefnogol iawn, fod y staff yn teimlo eu bod yn cael llai o gefnogaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar y cyfan.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod gwersi a ddysgwyd o archwiliadau yn cael eu hadolygu
- Bod mynediad i gofnod Datix o ddigwyddiadau ar gyfer uwch-aelodau o'r staff yn cael ei adolygu
- Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd y gellir cefnogi a rhoi gwybod i staff am unrhyw newidiadau/gwelliannau i'r gwasanaeth yn effeithiol.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw fod yr arweinyddiaeth a'r cymorth, boed yn bersonol neu o safbwynt gwaith, yn rhagorol. Gwelwyd bod gwaith tîm da yn cael ei annog gan yr holl uwch-reolwyr a chadarnhawyd hyn gan y staff yn yr adborth cadarnhaol a gafwyd mewn cyfarfodydd wyneb yn wyneb a thrwy'r 18 o holiaduron staff a gwblhawyd a gawsom. Dywedodd llawer o'r aelodau o'r staff wrthym eu bod yn ystyried bod ei amgylchedd gwaith yn agos iawn, a'u bod yn hapus i weithio yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Roedd rhai o'r holiaduron a gwblhawyd yn cynnwys y sylwadau canlynol:

"Cyn hyn, byddwn i wedi ymateb yn wahanol iawn, ond dros y 12 mis diwethaf yn benodol, rwy'n teimlo llawer yn fwy cadarnhaol am y cymorth a ddarperir yn y maes hwn."

"Roedd gen i reolwr cefnogol iawn yn ystod cyfnod o salwch hirdymor. Mae cynllun dychwelyd yn raddol effeithiol ar waith."

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym fod y rotas bydwagedd yn cael eu rheoli'n dda yn yr uned. Os oedd prinder staff cyflenwi, dywedwyd wrthym fod bydwagedd cymunedol yn cael eu galw i mewn. Byddai uwch-reolwyr hefyd yn cyflenwi yn ôl yr angen. Fodd bynnag, dywedodd rhai o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod problemau o ran cyflenwi staff meddygol a bydwagedd yn digwydd yn rheolaidd. Dywedwyd wrthym fod achosion o salwch hirdymor a swyddi gwag, er bod hyn yn cael ei reoli'n dda yn ôl pob golwg. Gwelsom fod prosesau uwchgyfeirio ar waith i'w defnyddio ar adegau pan fydd prinder staff, ac roedd pob aelod o staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i ddod o hyd i'r polisi a sut i uwchgyfeirio materion.

Yn dilyn trafodaethau mewn perthynas â staffio dros dro, ni chawsom sicrwydd fod y gyfarwyddeb oriau gwaith¹⁷ yn cael ei monitro'n effeithiol, lle roedd staff yn gweithio y tu hwnt i'w horiau gwaith craidd.

Gwelsom dystiolaeth fod rhaglen sefydlu gadarn ar waith ar gyfer y bydwagedd, a dywedodd y staff bod y rhain o fudd pan oeddent yn dechrau yn eu rôl. Fodd bynnag, nid oedd pecynnau sefydlu ar gael ar gyfer staff meddygol newydd, er i ni weld bod hyfforddiant a mentoriaeth barhaus ar waith ar gyfer staff meddygol. Cadarnhaodd y staff meddygol y gwnaethom siarad â nhw fod yr hyfforddiant, y cymorth a'r arweiniad o safon uchel iawn. Gwelwyd bod hyn yn wir hefyd yn y cyfweiliadau a gynhaliwyd â staff eraill.

Gwelsom fod proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd yn cael ei gwblhau ar-lein yn bennaf, fel hyfforddiant ar iechyd a diogelwch, diogelwch tân, atal heintiau a diogelu, a chaiff ei fonitro'n ganolog drwy gofnod staff electronig. Mae'r staff yn cael negeseuon i roi gwybod iddynt

¹⁷Cyfraith sy'n nodi nad yw staff yn cael gweithio mwy na 48 awr mewn wythnos gwaith er mwyn cynnal diogelwch a llesiant staff.

pan fydd eu hyfforddiant yn dod i ben er mwyn sicrhau bod ail-hyfforddi yn cael ei gwblhau o fewn amserlenni priodol. Fodd bynnag, ar ôl adolygu'r cofnodion hyfforddiant a siarad â'r staff, gwelsom nad oedd hyfforddiant ym maes Cardiotocograffeg (CTG)¹⁸ yn gyson ac roedd y gyfradd cydymffurio yn wael.

Gwnaethom nodi nad oedd bydwagedd sy'n gweithio mewn theatrau obstetrig (naill ail fel bydwraig sgwrio neu fydwraig adfer), wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr yn unol â chanllawiau, ac nid oedd ganddynt dystiolaeth i ddangos eu bod wedi cwblhau cymwyseddau i adlewyrchu'r hyfforddiant priodol a chymhwysedd unigol. Ymdriniwyd â'n pryderon yn hyn o beth o dan ein proses sicrwydd uniongyrchol. Mae manylion y gwelliannau uniongyrchol a nodwyd gennym yn Atodiad B.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal tri diwrnod astudio gorfodol sy'n ymwneud â mamolaeth yn ystod y flwyddyn. Mae un o'r diwrnodau hyn yn cynnwys hyfforddiant PROMPT, sef digwyddiad hyfforddi amlddisgyblaethol a ddefnyddir er mwyn annog gweithio amlddisgyblaethol mewn achosion brys. Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mynychu'r hyfforddiant hwn pan fyddant yn gallu a'i fod yn ddefnyddiol iawn. Dangoswyd ffigurau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant PROMPT i ni a chawsom sicrwydd bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei gynnal. Cadarnhawyd hyn hefyd yn holiaduron y staff a ddaeth i law.

Roedd y bwrdd iechyd yn defnyddio bydwraig arweiniol er mwyn hwyluso addysg ymarfer/ymarfer, a rhan o'i rôl oedd monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn. Mae angen i'r staff drefnu eu bod yn mynychu'r diwrnodau hyfforddi perthnasol, a rhoddir gwybod i'r uwch-dimau am bresenoldeb y staff.

Roedd goruchwylwyr clinigol i fydwragedd ar waith ar draws y bwrdd iechyd. Eu rôl oedd darparu cefnogaeth a goruchwyliaeth broffesiynol i'r staff bydwreigiaeth. Mae targed cenedlaethol¹⁹ i sicrhau bod y goruchwylwyr yn cyfarfod â'r bydwagedd am gyfanswm o bedair awr bob blwyddyn. Mae'r bwrdd iechyd yn

¹⁸ Dull technegol o gofnodi curiad calon y ffetws a chyfangiadau crothol yn ystod beichiogrwydd yw cardiotocograffeg (CTG).

¹⁹ <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/goruchwyliaeth-glinigol-i-fydwragedd-yng-nghymru.pdf>

monitro cydymffurfiaeth â'r targed hwn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn parhau i'w monitro'n barhaus.

Dyweddodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd a'u bod yn eu hystyried yn gyfarfodydd cadarnhaol er mwyn gwella datblygiad proffesiynol parhaus, a gafodd ei gadarnhau yn y data cydymffurfio a welsom.

Gwelsom fod y bydwagedd arbenigol arweiniol yn darparu lefel dda o gymorth a'u bod yn wybodus am eu rolau arbenigol. Mae'r arweinwyr hyn yn rhoi cymorth ac arweiniad drwy ddiwrnodau astudio, sesiynau goruchwyllo a chyfarfodydd â'r staff yn ôl yr angen. Dywedwyd wrthym fod nyrsys meithrin wedi'u cyflogi yn y ward ôl-enedigol, a gwelsom hefyd fod gweithwyr cymorth mamolaeth yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau i'r cymhwyster nesaf. Byddai hyn yn golygu y gellid rhoi mwy o gymorth i'r bydwagedd a mamau newydd mewn meysydd megis bwydo ar y fron, ymolchi ac anghenion gofal cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Bod lefelau'r staff meddygol a'r bydwagedd yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod safonau staffio diogel yn cael eu cyrraedd
- Bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant CTG yn gwella.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd

- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Gwasanaeth: Tywysoges Cymru

Maes: Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiadau arolygu: 30 Medi – 2 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Dd/G			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Maes: Uned Gwasanaethau Mamolaeth – Ysbyty Tywysoges Cymru

Dyddiad arolygu: 30 Medi – 2 Hydref 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd i wneud y canlynol:</p> <p>Sicrhau bod gwiriadau'r cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig a'r cyfarpar dadebru brys yn cael eu cynnal bob dydd yn unol â'i bolisi.</p> <p>Sicrhau bod y rhestrau gwirio ar gyfer unedau cyfarpar dadebru ar gyfer babanod newydd-anedig yn cael eu storio'n briodol gyda'r cyfarpar bob amser.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>2.9 Dyfeisiau ac Offer Meddygol a Systemau Diagnostig</p>	<p>Anfonir neges at y staff yn eu hatgoffa o'r gofyniad i sicrhau bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal ar y cyfarpar ar y ward esgor a Ward 12.</p> <p>Cydgysylltwyr ward esgor i wirio hyn ar ddechrau pob proses drosglwyddo er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad.</p> <p>Yn dilyn trafodaethau â'r tîm, cytunwyd y caiff rhifau eu nodi ar y cyfarpar dadebru yn barhaol fel bod y staff yn llofnodi'r daflen wirio dyddiol ar gyfer yr holl gyfarpar dadebru maent wedi'i archwilio a'i asesu. Codwyd pryder ynglŷn â'r ffaith y gallai'r rhestrau gwirio gael eu difrodi neu eu colli os ydynt ynghlwm wrth y cyfarpar, a chytunwyd bod nodi rhifau ar yr holl gyfarpar dadebru yn broses mwy diogel ac effeithiol.</p>	<p>Metron Bydwreigiaeth</p> <p>Metron Bydwreigiaeth / Cydgysylltwyr Ward Esgor</p> <p>Metron Bydwreigiaeth / Cydgysylltwyr Ward Esgor</p>	<p>Cwblhawyd 01.10.2019</p> <p>Cwblhawyd 01.10.2019</p> <p>Cwblhawyd 01.10.2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod meddyginiaeth yn cael ei storio'n ddiogel bob amser.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>2.6 Rheoli Meddyginiaethau</p>	<p>Mae Fitamin K wedi cael ei symud o'r troli babanod ac wedi'i gloi mewn cwpwrdd diogel yn yr ystafell driniaeth.</p> <p>Atgoffwyd y staff o bwysigrwydd storio meddyginiaethau yn ddiogel. Mae ampylau lidocaine wedi cael eu symud o ddroriau nad ydynt wedi'u cloi a'u storio mewn cwpwrdd dan glo yn yr ystafell driniaeth.</p> <p>Glanhau'r Ystafell Amlbwrpas – Nid oes gan yr ystafell driniaeth ddrws i gadw'r ystafell yn ddiogel. Mae'r hylifau mewnwythiennol wedi cael eu symud a'u storio mewn lleoliad diogel.</p> <p>Mae'r Adran Ystadau wedi asesu gosod drws yn yr ystafell hon. Mae'r gwaith hwn bellach yn mynd rhagddo ond mae hefyd angen cynnal archwiliad tân o ganlyniad i faterion gwres ac awyru (perylgl tân posibl) yr ystafell, a nodwyd hyn fel cam gweithredu brys. Trefnwyd yr arolygiad ar gyfer 10.10.2019. Ar ôl i adroddiad y tîm archwilio tân ddod i law, a bod</p>	<p>Metron Bydwreigiaeth / Cydgysylltwyr Ward Esgor</p> <p>Metron Bydwreigiaeth</p> <p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 01.10.2019</p> <p>Cwblhawyd 01.10.2019</p> <p>Cwblhawyd 02.10.2019</p> <p>Dechreuwyd ar 03.10.2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>asesiadau o'r ystafell yn cadarnhau ei bod yn ddiogel, heb nodi unrhyw beryglon tân, caiff y drws ei osod a'r nenfwd ei newid, gydag amserlen o tua 6 i 8 wythnos i gwblhau'r gwaith. Dywedwyd wrthym fod yn rhaid newid y nenfwd cyn y gellir gosod drws.</p> <p>Y sefyllfa ddiweddaraf ar 22/10/19 Cynhaliwyd yr archwiliad tân ac mae'r canfyddiadau'n llywio'r camau nesaf i gwblhau'r gwaith o osod y drws tân. Disgwylir i hyn gael ei gwblhau o fewn 6 wythnos</p> <p>Mae'r oergell yn yr ystafell driniaeth wedi cael ei chloi. Mae cydgysylltwyr y ward esgor wedi cyfleu, drwy sesiynau briffio ar ddiogelwch, fod yn rhaid cloi'r oergell bob amser. Bydd y Metron Bydwreigiaeth yn cynnal hapwiriadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. Hyd yma, cynhaliwyd 5 o wiriadau ac ni nodwyd unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfiaeth. Caiff unrhyw achos o ddiffyg cydymffurfiaeth ei nodi yn DATIX.</p> <p>Y sefyllfa ddiweddaraf ar 22/10/19 Mae Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth bellach wedi cynnal 3 hapwiriad ychwanegol ac mae'r oergell wedi bod dan glo ar bob achlysur – rhoddwyd gwybod i</p>	<p>Rheolwr Cyffredinol Ysbyty Tywysoges Cymru</p>	<p>Cwblhawyd 01.10.2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		bob aelod o staff am y gofyniad. Bydd yr uwchfydwagedd yn parhau i fonitro hyn drwy archwiliadau sicrhau ansawdd.	Metron Bydwreigiaeth / Cydgysylltwyr Ward Esgor	
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Cynhaliwyd asesiad newydd yn yr uned esgor, er mwyn sicrhau ei bod bob amser yn bosibl i bobl wagio'r adeilad yn ddiogel ac yn effeithiol os bydd argyfwng, megis tân.</p>	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	<p>Gofynnwyd i'r Swyddog Tân ymgymryd ag asesiad risg tân ar y ward esgor ar 10.10.2019 gyda staff y ward.</p> <p>Gofynnwyd i'r staff gadw'r coridor hwn yn glir er mwyn gallu gwagio'r adeilad mewn argyfwng.</p> <p>Nid oes unrhyw le arall ar gael ar y ward esgor i storio gwelyau esgor pan fydd angen gwelyau ward ar fenywod os byddant yn aros ar y ward esgor am gyfnodau hirach.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd yn adolygu'r amgylchedd presennol er mwyn sicrhau bod pob rheoliad yn cael ei fodloni.</p>	<p>Metron Bydwreigiaeth</p> <p>Metron Bydwreigiaeth</p> <p>Rheolwr Ystadau</p> <p>Rheolwr Cyffredinol yr Ysbyty</p>	<p>Cwblhawyd 10.10.19</p> <p>Cwblhawyd 08.10.2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Y sefyllfa ddiweddaraf ar 20.10.19 Mae'r asesiad tân wedi cael ei gwblhau – gwnaed ymdrechion i ddod o hyd i unrhyw welyau ward esgor nad ydynt yn yr ystafelloedd geni ar y ward gynenedigol – fodd bynnag, nid yw hyn yn ymarferol am fod problemau codi a chario gyda'r gwelyau. Y bwriad nawr yw storio'r gwelyau nad ydynt yn cael eu defnyddio yn yr ail theatr (anaml y caiff hon ei defnyddio).</p> <p>Mae ymarfer tân yn cael ei drefnu i brofi proses y ward esgor o wagio'r adeilad pan fydd yn ofynnol i wely gael ei adael yn y coridor. Bydd y gwasanaethau mamolaeth yn cwblhau asesiad risg o'r cam gweithredu hwn ac yn ei ychwanegu at y gofrestr risgiau.</p>	<p>Prif Swyddog Gweithredol</p> <p>Metron</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>19 Tachwedd</p> <p>25.10.2019</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p>	<p>3.5 Cadw Cofnodion</p>	<p>Mae cloeon padiau gwthio wedi'u gosod ar bob cwpwrdd sy'n cynnwys cofnodion menywod ac yn swyddfa'r ward esgor.</p>	<p>Metron Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 04.10.2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Bod systemau priodol ar waith, sy'n cynnal cyfrinachedd cleifion, ac yn atal unrhyw fynediad anawdurdodedig i gofnodion cleifion bob amser.</p>		<p>Mae'r clo ar y troli cofnodion ar Ward 12 wedi cael ei atgyweirio.</p> <p>Y sefyllfa ddiweddaraf ar 20.10.19</p> <p>Mae'r gofynion i gloi'r cwpwrdd a'r troli nodiadau wedi cael eu cyfleu i'r staff drwy adnoddau cyfathrebu ac yn ystod prosesau trosglwyddo.</p> <p>Mae Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth bellach wedi ymgymryd â 3 hapwriad ychwanegol ac mae'r drysau a'r troli nodiadau wedi bod dan glo ar bob achlysur.</p> <p>Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro drwy'r archwiliadau sicrwydd.</p>	<p>Rheolwr y Ward</p>	<p>Cwblhawyd 04.10.2019</p>
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod gwaith asesu ac atgyweirio / newid llawr y theatr yn cael ei wneud yn y Theatrau er mwyn sicrhau bod mesurau atal a rheoli</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi</p>	<p>Gofynnwyd i'r Tîm Atal a Rheoli Heintiau gynnal archwiliad o'r materion a nodwyd yn y theatrau.</p> <p>Trwsio ardal y llawr â thâp arno a newid y sgyrtin – cyfarfod archwilio â'r contractwr ar 04.10.2019.</p> <p>Mae'r tîm Atal a Rheoli Heintiau wedi cwblhau archwiliad o lawr y theatr, a chadarnhawyd ei fod yn addas ar gyfer mesurau Atal a Rheoli Heintiau.</p> <p>Archwiliwyd sgyrtin y theatr a chynghorwyd y dylid newid y rhain. Cysylltwyd â'r adran Ystadau er mwyn</p>	<p>Metron Bydwreigiaeth</p> <p>Rheolwr Cyffredinol Ysbyty Tywysoges Cymru</p>	<p>Cwblhawyd 03.10.2019</p> <p>Codwyd yr archeb 07.10.2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
heintiau yn cael eu cynnal bob amser.		<p>trefnu i'r gwaith hwn gael ei gwblhau ar fyrder – dyddiad i'w gadarnhau.</p> <p>Y sefyllfa ddiweddaraf ar 20.10.2019 Mae'r gwaith atgyweirio wedi'i drefnu ac mae'r adran ystadau yn cydgysylltu â'r ward esgor er mwyn cynllunio argaeledd theatrau. Mae hyn yn cael ei gydlynw ag argaeledd y brif theatr. Rhagwelir y caiff hyn ei gwblhau erbyn 31.10.19</p>	Tîm Atal a Rheoli Heintiau / Rheolwr Ystadau	Derbyniwyd yr e-bost gan y Tîm Atal a Rheoli Heintiau a'i anfon ymlaen at y rheolwr Ystadau er mwyn gweithredu arno unwaith 09.10.2019
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod yr holl fydwragedd sy'n gweithio yn y theatrau fel bydwraig sgwrio a bydwraig adfer, yn cael eu hyfforddi'n briodol yn unol â chanllawiau</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	Prif Theatrau - mae Hyfforddwr Theatr Arbenigol yn cynnal asesiad cymhwysedd ar gyfer y tair bydwraig sgwrio craidd a ddewiswyd. Dechreuodd yr asesiadau hyn ar 04.10.2019. Yna, bydd y tîm hwn yn parhau ag asesiadau cymhwysedd yr holl fydwragedd sgwrio eraill, ar sail y cymhwyseddau a ddefnyddir yn y prif theatrau. Gofynnwyd i'r tîm bydwreigiaeth sgwrio craidd ddarparu amserlenni er mwyn sicrhau bod hyfforddiant a chydymffurfiaeth y staff yn gyfredol erbyn mis Rhagfyr 2019.	Metron Bydwreigiaeth Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth	Dechreuwyd ar 04.10.2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>cenedlaethol, a chaiff cymwyseddau eu cwblhau a'u storio'n briodol i'w hadolygu, a darperir diweddariadau hyfforddiant lle y bo'n berthnasol.</p>		<p>Mae'r Hyfforddwr Theatr Arbenigol wedi cwblhau asesiadau ar gyfer dwy allan o'r tair bydwaig sgwrio graidd a ddewiswyd, a chadarnhawyd eu bod yn gymwys. Mae asesiad y drydedd fydwaig wedi'i drefnu pan fydd yn dychwelyd i'r gwaith yr wythnos nesaf.</p> <p>Mae cymwyseddau craidd yn cael eu datblygu gyda chymorth gan yr Hyfforddwr Theatr Arbenigol a byddant yn ffurfio asesiad blynyddol o'r staff.</p> <p>Y sefyllfa ddiweddaraf ar 22.09.2019 Y rhaglen asesu cymhwysedd a ddefnyddir gan y prif hyfforddwr theatr arbenigol arweiniol yw'r 'Safonau Diogelwch Cenedlaethol ar gyfer Triniaethau Mewnwithiol'. (Llywodraeth Cymru 2016) Mae hyfforddiant parhaus wedi'i gynllunio i sicrhau bod yr holl fydwragedd sy'n cyflawni rôl sgwrio mewn theatr obstetrig, yn cael eu hasesu. Caiff hyn ei gwblhau erbyn mis Rhagfyr 2019.</p>	<p>Hyfforddwr Theatr Arbenigol</p> <p>Bydwaig Arweiniol Theatr Bydwreigiaeth</p> <p>Arweinydd Theatr Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 2 allan o 3 ar 9.10.2019</p> <p>Dechreuwyd ar 09.10.2019</p> <p>31.12.2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Bod y broses o ragnodi meddyginiaeth ysgogi cyfnod esgor yn cael ei hadolygu, er mwyn lleihau'r risg o gamgymeriadau o ran rhoi'r feddyginiaeth.</p>	<p>3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol</p>	<p>Anfonwyd gohebiaeth at bob aelod o'r staff drwy'r briff diogelwch ynglŷn â'r broses o dderbyn menywod i'r ysbyty a gynlluniwyd ymlaen llaw er mwyn ysgogi cyfnod esgor. Siartiau meddyginiaeth yn nodi y rhagnodir Propess a Prostin i'r claf cyn iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty. Mae canllawiau yn nodi y dylid rhoi opsiwn "naill ai/neu" ar sail Sgôr Bishop pan fydd claf yn cael ei dderbyn i'r ysbyty.</p> <p>Siartiau meddyginiaeth yn nodi Propess neu Prostin yn glir. Datblygwyd sticer newydd a gaiff ei roi ar flaen y siart meddyginiaeth yn yr adran sylwadau i ddangos bod Propess neu Prostin yn cael ei roi ar sail Sgôr Bishop. Cafodd hyn ei ddatblygu gyda'r staff mamolaeth.</p> <p>Cynhaliwyd asesiad risg yn Ysbyty'r Tywysog Siarl hefyd, a chwblhawyd proses sicrhau diogelwch ar gyfer y safle hwn.</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 02.10.2019</p> <p>Cwblhawyd 02.10.2019</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Y sefyllfa ddiweddaraf ar 24.10.2019 Cadarnhaodd y fferyllydd arweiniol fod y sticer ar gyfer y siart cyffuriau yn addas.	Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd 08.10.2019
<p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd ddarparu manylion i AGIC am y camau y bydd yn eu cymryd er mwyn sicrhau'r canlynol:</p> <p>Mae mesurau wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y babanod yn cael eu cadw'n ddiogel ar draws y gwasanaethau mamolaeth er mwyn atal achosion o herwydio babanod.</p>	<p>2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch</p> <p>2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg</p>	<p>Ychwanegwyd yr asesiad risg a gynhaliwyd er mwyn sicrhau diogelwch y baban newydd-anedig, at y Gofrestr Risg.</p> <p>Cysylltwyd â Ward Ôl-enedigol Caerdydd a'r Fro i gael cyngor ar ei system ddiogelwch. Cysylltwyd â chwmmi i roi dyfynbris ar gyfer y system hon.</p> <p>Cynhelir ymarferion herwydio a gynlluniwyd ymlaen llaw (heb yn wybod i'r staff), bob chwe mis. Rhoddwyd gwybod i'r staff bod angen sicrhau bod staff ar gael ar y ddesg ar Ward 12 a'r Ward Esgor bob amser.</p> <p>TG ar gael yn yr ystafelloedd esgor fel bod y staff yn gallu aros gyda'r teuluoedd yn ystod eu cyfnod gofal ar y ward.</p>	<p>Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth</p> <p>Metron Bydwreigiaeth</p> <p>Metron Bydwreigiaeth</p>	<p>Cwblhawyd 03.10.2019</p> <p>Cwblhawyd 04.10.2019</p> <p>I ddechrau ym mis Hydref</p> <p>Roedd hyn eisoes ar waith</p>

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Mae gan Ysbyty'r Tywysog Siarl system ddiogelwch 'X-Tag' ar waith, sef yr un system â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.</p> <p>Y sefyllfa ddiweddaraf ar 22.10.2019 Mae'r staff yn cydnabod diogelwch babanod newydd-anedig a'r risg o herwydio babanod yn llawn. Nid yw'r gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth 24 awr yn nerbynfa'r ward, ac mae'r staff clinigol y tu allan i oriau yn lleoli eu hunain wrth brif ddesg y ward er mwyn gallu arsylwi ar y rheini sy'n cyrraedd ac yn gadael y ward.</p> <p>Mae menywod a theuluoedd yn destun asesiadau risg yn ystod beichiogrwydd mewn perthynas â phryderon o ran rhieni a theuluoedd risg uchel a theuluoedd sy'n ymwneud â'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae gan bob un ohonynt gynlluniau cyn geni sy'n cael eu cyfleu i'r gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y lefel briodol o arsylwi a goruchwyllo yn cael ei darparu.</p>		Eisoes ar waith

Cynrychiolydd y Gwasanaeth/Bwrdd Iechyd:

Enw (priflythrennau):Greg Dix.....

Rôl:


Dyddiad:25 Hydref 2019.....

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Tywysoges Cymru
Maes: Gwasanaethau Mamolaeth
Dyddiadau arolygu: 30 Medi – 2 Hydref 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n rhaid eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd ar gael yn hawdd ym mhob rhan o'r uned.	1.1 Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd	Bydwraig iechyd y cyhoedd i sicrhau bod negeseuon ynglŷn ag iechyd y cyhoedd yn cael eu harddangos yn yr uned.	Bydwraig Iechyd y Cyhoedd	Cwblhawyd – Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth am y staff yn cael ei harddangos i'r cleifion.	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	Mae gwybodaeth am y staff bellach yn cael ei harddangos yn y ward gynenedigol a'r ward ôl-enedigol.	Prif Nyrs y Ward	Cwblhawyd – Tachwedd 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod y defnydd o wybodaeth a chofnodion ysgrifenedig yn ystod y broses drosglwyddo yn cael ei wella.	3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae taflenni trosglwyddo, y mae'r holl wybodaeth yn cael ei chynnwys arnynt, yn cael eu cwblhau'n electronig. Bydd y gwasanaeth yn cynnal hapwiriadau o ansawdd y 'taflenni trosglwyddo' wrth ymgymryd â'r archwiliadau sicrwydd. Ychwanegwyd y gofyniad i wirio'r taflenni wrth ymgymryd ag archwiliadau sicrwydd at dempled yr archwiliad sicrwydd.	Cydgysylltydd y ward esgor Metron bydwreigiaeth a phrif nyrs y ward	Cwblhawyd – Tachwedd 2019 Cwblhawyd – Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod byrddau cipolwg ar statws cleifion yn cael eu diweddarau'n gyson er mwyn sicrhau bod y wybodaeth fwyaf cyfredol ar gael i gleifion.	3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Bydd yr uned yn adolygu byrddau cipolwg ar statws cleifion er mwyn sicrhau eu bod yn gliriach i'r staff eu cwblhau.	Prif Nyrs y Ward a'r Metron bydwreigiaeth	Cwblhawyd – 1 Hydref 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cael gwybod am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Bydd y gwasanaeth yn dosbarthu gwybodaeth i ardaloedd y wardiau am rôl y Cyngor Iechyd Cymuned wrth ddarparu cymorth ac eiriolaeth.	Bydwraig profiad menywod	Cwblhawyd 11 Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ystafelloedd amlbwrpas yn cael eu trefnu i safonau uchel.	2.1 Rheoli Risg a Hybu Iechyd a Diogelwch	Prif nyrsys wardiau i gadarnhau defnydd clinigol o'r ystafelloedd amlbwrpas fel rhan o'r broses wirio ddyddiol.	Prif Nyrsys y Ward	Cwblhawyd – 12 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod adolygiad noeth o dan y penelin yn cael ei gynnal.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae'r gwasanaeth wedi anfon canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar 'Noeth o dan y Penelin' at y staff clinigol unwaith eto. Bydd prif nyrsys y wardiau ac arweinwyr Atal a Rheoli Heintiau yn sicrhau bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u bod yn herio ymarfer gwael.	Pennaeth Bydwreigiaeth Prif nyrsys y ward	Cwblhawyd – Hydref 2019 Cwblhawyd – Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod posteri golchi dwylo yn cael eu harddangos.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Bydd y gwasanaethau mamolaeth yn cysylltu â'r timau Atal a Rheoli Heintiau i ofyn i'r posteri gael eu harddangos ym mhob ardal glinigol.	Metron Bydwreigiaeth	Cwblhawyd – Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd ystyried opsiynau ar gyfer cael gwared ar staeniau yn y pwll geni.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Mae'r gwasanaeth wedi gofyn am gymorth i gael pwll geni newydd. Mae cyllid wedi'i gymeradwyo ac mae'r pwll yn cael ei archebu. Mae'r gwasanaeth yn aros i gadarnhau dyddiad gosod.	Bydwraig Ymgynghorol Metron Bydwreigiaeth	Cwblhawyd – Hydref 2019 Ionawr 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr holl amserlenni glanhau yn cael eu cwblhau'n briodol.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dihalogi	Bydd yr amserlenni glanhau ar yr uned yn cael eu hadolygu a'u monitro fel rhan o'r archwiliadau sicrwydd.	Metron Bydwreigiaeth	16 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod dewisiadau maethlon yn cael eu hadolygu er mwyn darparu ar gyfer pob claf yn yr uned.	2.5 Maeth a Hydradu	Bydd y gwasanaeth yn cadarnhau bod dewisiadau maethlon yn cael eu cofnodi ar adeg derbyn y claf. Caiff hyn ei fonitro drwy'r archwiliadau sicrwydd.	Prif Nyrsys y Ward Metron Bydwreigiaeth	16 Rhagfyr 2019 31 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod archwiliadau rheolaidd o siartiau presgripsiynau yn cael eu cynnal.	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Bydd archwiliadau o siartiau presgripsiynau yn cael eu cynnal drwy'r archwiliadau sicrwydd misol.	Metron Bydwreigiaeth a phrif nyrs y ward	31 Rhagfyr 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod asesiadau diogelu yn cael eu hadolygu.	2.7 Diogelu Plant a Diogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg	Mae'r fydwraig ddiogelu wedi creu ffeiliau diogelu electronig.	Bydwraig Ddiogelu	Wedi'i gwblhau
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cymorth bwydo ar y fron ei adolygu a bod gwelededd yn cynyddu ym mhob rhan o'r uned.	3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae'r cydgysylltydd bwydo babanod yn rhoi diweddariadau blynyddol i'r gweithiwr cymorth gofal iechyd a'r nyrsys meithrin yn seiliedig ar y ward ôl-enedigol. Mae nyrsys meithrin yn cael eu cyflogi yn y ward dros y 24 awr.	Cydgysylltydd bwydo babanod	Mawrth 2020
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau o fewn amserlenni priodol.	3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Technoleg Cyfathrebu 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae'r canllawiau yn cael eu hadolygu drwy'r ffurflenni clinigol. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod canllawiau yn cael eu huno ers y newid i'r ffiniau ym mis Ebrill 2019. Y bwriad gan y grŵp ansawdd a diogelwch o ran y newid i'r ffiniau oedd y byddai ysbyty Tywysoges Cymru yn rhoi'r gorau i ddefnyddio	Cadeiryddion fforymau clinigol	1 Mawrth 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		canllawiau Bae Abertawe erbyn mis Mawrth 2020.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mynediad i'r porth clinigol yn cael ei adolygu.	3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Thechnoleg Cyfathrebu 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Mae gan bob aelod o'r staff fynediad i'r porth clinigol – caniateir y mynediad hwn pan fyddant yn dechrau gweithio yn y Bwrdd Iechyd. Bydd y tîm rheoli yn ysgrifennu at bob aelod o'r staff yn esbonio hyn ac yn gofyn iddynt gysylltu â ni os bydd angen rhagor o hyfforddiant arnynt o ran defnyddio'r porth.	Pob aelod o staff Dirprwy Bennaeth Bydwreigiaeth	Cwblhawyd Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn dangos yr holl ofal a thriniaethau a ddarperir i'r cleifion a'u bod yn cyd-fynd â safonau cadw cofnodion proffesiynol. Gan gynnwys y gallu i adnabod pob gofalwr clinigol drwy edrych ar ei enw mewn llythrennau breision a'i rif Cyngor Meddygol Cyffredinol.	3.5 Cadw Cofnodion	Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn ymgymryd ag archwiliadau cadw cofnodion a fydd yn cael eu cwblhau erbyn diwedd mis Ionawr 2020. Atgoffir staff meddygol ei bod yn ofynnol cynnwys eu rhif Cyngor Meddygol Cyffredinol yn eu dogfennaeth.	Goruchwylydd clinigol bydwreigedd Cyfarwyddwr Clinigol	31 Ionawr 2020 Cwblhawyd 12 Rhagfyr 2019

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwersi a ddysgwyd o archwiliadau yn cael eu hadolygu.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd 3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Bydd y grŵp archwilio ac ymchwilio yn adolygu'r ffordd y mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu rhannu â'r tîm ehangach. Bydd hyn yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • cynyddu nifer y bydwagedd sy'n mynychu diwrnodau archwilio/llywodraethu • datblygu cylchlythyr canlyniadau archwiliadau y gellir ei dosbarthu i'r staff • gwersi a ddysgwyd o archwiliadau yn y fforwm bydwreigiaeth broffesiynol 	Bydwraig Ymgynghorol a'r Prif Obstetregydd Uwch-fydwragedd Arweinwyr archwilio Pennaeth Bydwreigiaeth	Ionawr 2020 Ionawr 2020 Rhagfyr 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod mynediad i Datix yn cael ei adolygu.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd 3.4 Llywodraethu Gwybodaeth a Technoleg Cyfathrebu	Mae pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar Datix a bydd diweddariadau blynyddol ynghylch rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn parhau. Trefnwyd hyfforddiant ar gyfer prif nyrs y ward a chydgyssylltwyr y ward esgor er	Bydwraig Risg a Bydwagedd Datblygu Ymarfer Bydwraig Risg a Bydwagedd Datblygu Ymarfer	31 Mawrth 2020 29 Chwefror 2020

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		mwyn adolygu a chefnogi'r gwaith o reoli digwyddiadau yn eu hardaloedd clinigol.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r ffordd y gellir cefnogi a rhoi gwybod i staff am unrhyw newidiadau/gwelliannau i'r gwasanaeth yn effeithiol.	Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd 3.2 Cyfathrebu'n Effeithiol	Mae fforymau bydwreigiaeth proffesiynol ar gael i'r staff gael y wybodaeth ddiweddaraf am faterion gweithredol a strategol. Caiff cyfarfodydd staff eu trefnu a'u cyfleu. Cynhelir cyfarfodydd staff meddygol bob mis.	Pennaeth Bydwreigiaeth Metron Bydwreigiaeth Cyfarwyddwr Clinigol a Rheolwr y Gyfarwyddiaeth.	Wedi'i gwblhau Cwblhawyd Medi 2019 Cwblhawyd Medi 2019
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod lefelau'r staff meddygol a'r bydwagedd yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau bod safonau staffio diogel yn cael eu cyrraedd.	7.1 Y Gweithlu	Mae gan yr uned staff cyflenwi 40 awr ar gyfer y ward esgor a chaiff lefelau'r staff meddygol eu monitro gan dîm y Gyfarwyddiaeth.	Rheolwr y Gyfarwyddiaeth a'r Cyfarwyddwr Clinigol Pennaeth Bydwreigiaeth a'r	Cwblhawyd Medi 2019 Cwblhawyd Hydref 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		<p>Bydd lefelau staffio yn cael eu hadrodd drwy ddangosfwrdd y gweithlu a phob wythnos i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Bydd yr uned yn gweithredu ar y Gyfradd Geni ac argymhelliad yr asesiad – daeth yr adroddiad i law ym mis Tachwedd 2019.</p> <p>(Ysbyty Tywysoges Cymru yn cydymffurfio – llenwyd pob swydd wag ym mis Hydref 2019)</p>	<p>Cyfarwyddwr Clinigol</p> <p>Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Metron</p>	<p>Cwblhawyd Tachwedd 2019</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cydymffurfiaeth â hyfforddiant CTG yn gwellu.</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>Caiff cydymffurfiaeth yr hyfforddiant ei monitro drwy'r grŵp hyfforddiant a'r dangosfwrdd.</p> <p>Bydd y gwasanaeth yn hwyluso diwrnodau hyfforddi ychwanegol i'r staff meddygol gymryd rhan ynddynt.</p>	<p>Pennaeth Bydwreigiaeth a'r Cyfarwyddwr Clinigol</p>	<p>Mawrth 2020</p> <p>Cwblhawyd 6 Rhagfyr 2019</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Jane Phillips

Swydd: Pennaeth Bydwreigiaeth Cynorthwyol:

Dyddiad: 12 Rhagfyr 2019